TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Dyddiad cyhoeddi:** 18 Chwefror 2022

# Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydyn ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n Polisi Rheoli Data a Gwybodaeth.

**Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:**

> *"Allech chi hefyd gadarnhau:*
> *(a) erbyn pryd ydych chi'n rhagweld y bydd y gwaith ar bont Stryd Adam yn dod i ben?*
> *(b) Pryd fydd y ddolen Coryton-Radur yn cael ei hadfer?"*

**Ar ôl adolygu eich cwestiynau, rydyn ni'n gallu darparu'r wybodaeth ganlynol:**

(a) Mae dau gam ar ôl i'r gwaith parhaus ar Bont Stryd Adam. Dyma'r dyddiadau allweddol ar gyfer cwblhau'r camau hyn:

Bydd bae 3 strwythur y bont yn cael ei drosglwyddo i dîm y cledrau ar 29 Ebrill 2022 i adfer y balast, y trawstiau a'r rheilffordd cyn agor i draffig.

Disgwylir y bydd baeau 1 a 2 yn cael eu cwblhau ar 29 Mai 2022.

Mae'r gwaith ar y strwythur yn mynd rhagddo'n dda ac yn unol â'r rhaglen. Fodd bynnag, dylid nodi bod risg bob amser o lithro os bydd anawsterau annisgwyl yn codi.

(b) Mae TrC yn deall bod diddordeb ers tro byd mewn cwblhau 'dolen' Coryton, y cyfeirir ato hefyd fel Llinell Gylchol Dinas Caerdydd, a fyddai'n cysylltu Coryton â Radur drwy orsaf newydd yn Felindre a phont newydd dros Afon Taf. Mae dadleuon wedi cael eu gwneud o blaid ac yn erbyn cwblhau'r Llinell Gylchol dros nifer o ddegawdau, gryn amser cyn sefydlu TrC. Amlinellir y cynigion diweddaraf ar dudalennau 10-13 y Papur Gwyn ar Drafnidiaeth Caerdydd a gyhoeddwyd gan Gyngor Sir Caerdydd yn 2019.

Mae dwy orsaf arall y tu hwnt i Coryton wedi cael eu hawgrymu fel 'opsiynau ehangu' – un yn Ysbyty Felindre ac un arall i wasanaethu fel man parcio a theithio oddi ar yr M4 (a fyddai'n cael ei alw'n Orsaf Longwood Drive). Ar hyn o bryd, dim ond darpariaeth basio sydd wedi cael ei gwneud ar gyfer y ddwy orsaf ychwanegol gan fod y penderfyniad i fwrw ymlaen â'u hadeiladu – ac yn wir unrhyw benderfyniad i fynd ymhellach a chwblhau llinell gylchol Caerdydd – yn gorwedd gyda Chyngor Sir Caerdydd ac yn syrthio y tu allan i gwmpas presennol ein gwaith i drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd. O'r herwydd, nid yw TrC yn ymchwilio i hyn ar hyn o bryd.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,

**Trafnidiaeth Cymru**

**Hawliau Apelio**

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y llythyr hwn. Os nad ydych chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: https:/ico.org.uk/make-a-complaint/

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".